



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 6 Mawrth 2018 am 6.30yh
yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 6 March 2018 at 6.30pm
at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors Richard Jones (*yn y gadair/in the chair*),
John Adams-Lewis, Clive Davies, Elaine Evans, Graham Evans, Marilyn Farmer, Debra Griffiths,
Wyn Jones, Siân Maehrlein, Catrin Miles, Steffan Morgan, Yvonne O'Neill, Shan Williams.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. Richard Jones, bawb i'r cyfarfod. Cyhoeddodd y newyddion trist am farwolaethau Mrs Barbara Bennett, priod y Parchedig John Bennett, a Mrs Sheila Bowen, gweddw cyn-glerc y cyngor, Mr Keith Bowen. Anfonwyd cardiau o gydymdeimlad i'r teuluoedd. Ychwanegodd y Cyng. John Adams-Lewis ei fod, yn rhinwedd ei swydd fel Dirprwy Faer, wedi cynrychioli'r cyngor i gyflwyno tusw o flodau a charden i Mrs Ivy Eley, Melin-y-coed, a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed.

The Mayor, Cllr Richard Jones, welcomed all to the meeting. He referred to the passing of Mrs Barbara Bennett, wife of the Reverend John Bennett, and Mrs Sheila Bowen, widow of the past clerk of the council, Mr Keith Bowen. The condolences of the council were forwarded to both families. Cllr John Adams-Lewis, in his role as Deputy Mayor, represented the council and presented Mrs Ivy Eley, Melin-y-coed, with a bouquet of flowers and a card to celebrate her 100th birthday.

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng. / Cllr Trystan Phillips (*gwaith/work commitments*)

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	<i>Holl faterion cynllunio / All planning matters</i>
Y Cyng. / Cllr Clive Davies	<i>Cynllunio / Planning A180192</i>
Y Cyng. / Cllr Richard Jones	<i>Cynllunio / Planning A180192</i>
Y Cyng. / Cllr Shan Williams	<i>Cynllunio / Planning A180192</i>

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 6 Chwefror.

Confirmation of Minutes of 6 February Council Meeting.

Tud. 1333, eitem 6: Yn y fersiwn Saesneg dylai'r eilydd ddarllen "Cllr Graham Evans".

Tud. 1334, eitem 11(a)(ii) Nid yw'r fersiwn Saesneg wedi ei gofnodi.

Page 1333, item 6: The seconder should read "Cllr Graham Evans".

Page 1334, item 11(a)(ii): The English translation has not been recorded:

"(ii) Following complaints regarding the illegible signage on the High Street, Cllr Miles has contacted the appropriate county council department to make good the problem."

Gyda'r cywiriadau uchod, cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod cofnodion cyfarfod 6 Chwefror yn gywir.

With the above amendments, Cllr John Adams-Lewis proposed that the 6 February council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Graham Evans.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud. 1333, eitem 7: Disgwylir cyhoeddiad am leoliad Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2020, sydd i'w chynnal yng Ngheredigion ar 21 Mawrth.

Page 1333, item 7: The announcement of the location of the 2020 National Eisteddfod of Wales, which is to be held in Ceredigion, is expected on 21 March.

6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

7. Cynllunio / Planning.

Rhif y Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A180192	Storage shed no. 2 adjoining public car park off Morgan Street	Change of use of existing storage building to use as restaurant and hot food take-away.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.

Cynigiwyd yr uchod gan y Cyng. Elaine Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Siân Maehrlein.

The above was proposed by Cllr Elaine Evans and seconded by Cllr Siân Maehrlein.

8. Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
20/2/18	<i>Calonnau Cymru / Welsh Hearts: Cabinet for defibrillator (trosglwyddwyd o Gronfa'r Maer / funds transferred from Mayor's Fund 2016-17)</i>	A15	4523	£500.00 (83.33)
20/2/18	Designer Jackson: <i>Digitaleiddio logo'r cyngor / digitalisation of council logo.</i>	B9	4524	£200.00 (0.00)
20/2/18	The Flag Loft: <i>Baner y Ddraig Goch / Red Dragon flag</i>	B9	4525	£121.80 (20.30)
1/3/18	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Chwefror / February). Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room (6 & 20 Chwefror / February)</i>	A9	D/D	£250.00 (0.00)
	<i>Band Lydan (Mawrth) / Broadband (March)</i>	A9	4526	£50.00 (0.00)
		A20	4526	£20.00 (0.00)
12/2/18	Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translation (6/2/18)</i>	A18	4527	£63.30 (0.00)
28/2/18	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Chwefror/ February)</i>	A3	4528	£756.36 (0.00)
6/3/18	Midshire: <i>Ôl-daliad cyfrif (cyfanswm £831.63 + VAT) 6 monthly instalments of £166.33 (incl. VAT) back payment (6th instalment)</i>	A17	4529	£166.33 (27.72)
	<i>Llungopïo / Photocopying</i>	A17	4529	£75.64 (12.61)
6/3/18	Signspeed Ltd.: <i>Paneli i'r mapiau / Full colour digitally printed and over-laminated single sided aluminium composite sign panels (7)</i>	B9	4530	£1,416.00 (236.00)
6/3/18	Leander Architectural: <i>Arwyddion bys / Finger posts</i>	B9	4531	£5,912.54 (985.42)
	<i>Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis: Carden a blodau / Flowers and card to celebrate the 100th birthday of Mrs Ivy Eley, Saxa Ford, Melin-y-coed,</i>	A3	4532	£13.40 (0.00)
28/2/18	<i>Bachan Deche / Handyperson (Chwefror / February)</i>	A19	4533	£125.40 (20.90)
6/3/18	Sutcliffe Play South Wales: <i>Cyfarpar i Gae Chwarae Pentop / Play equipment for the Pentop Play Area (2.4 high swing with 1 nest, 1 flat seat)</i>	C12	4534	£3,780 (630.00) + installation and delivery

Cynigiodd y Cyng. Clive Davies bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Steffan Morgan.

Cllr Clive Davies proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Steffan Morgan.

Derbyniadau/Receipts:

10/1/18	Mrs Llinos Jones (<i>hurio'r offer cyfieithu / Hire of translating equipment</i>)	£65.00
9/1/18	<i>Llog y Banc / Bank interest</i>	£1.60
15/2/18	<i>Trosglwyddwyd o Gronfa'r Maer</i> Transferred from the Mayor's Fund (2016-17): Cabinet for defibrillator	£416.67

9. Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.**(a) Y Cyng. John Adams-Lewis:**

- (i) Mae cynllun i leihau'r llifogydd o ardal Dôl y Dintir hyd stad Cnwcydintir yn mynd yn ei flaen yn hwylus er bod cwynion wedi cyrraedd ynglŷn â thorri'r cloddiau a phlanhigion gan beryglu bywyd gwyllt, er mwyn caniatáu i beiriannau trwm gwblhau'r gwaith; mae angen dros chwe throedfedd o led iddynt wneud y gwaith yn effeithiol. Bydd y cyngor sir yn ailblannu wedi i'r gwaith orffen.
- (ii) Mae gobeithion y bydd Ken Skates, gweinidog â chyfrifoldeb am briffyrdd Llywodraeth Cymru, yn caniatáu i'r llwybr o ardal Heol Caemorgan i bentref Penyparc mynd yn ei flaen yn dilyn pwyllgor safle.
- (iii) Yn dilyn y llanast a wnaed gan y cerbyd aeth ar dân ym Mhontycleifion, bydd rhaid ail-osod y palmant.
- (iv) Disgwylir i'r aelod seneddol Ben Lake gysylltu â chwmni Tai Ceredigion Cyf. i wneud cais bod y cwmni'n trosglwyddo'r darn o dir sydd ar safle Cae Chwarae Maesglas yn rhad ac am ddim i gyngor y dref.

(b) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Yn dilyn y dryswch am gau'r ffordd yn Queen's Terrace er mwyn ailwynebu'r droedffordd, mae'r gwaith bellach wedi ei gyflawni heb gau'r ffordd.
- (ii) Mae Cyngor Sir Ceredigion yn bwrw ymlaen â'r cydweithio gyda Chyngor Sir Powys er mwyn datblygu Canolbarth Cymru i fod yn fwy effeithiol ac i drafod effeithiolrwydd y drafnidaeth i gerbydau trymion.
- (iii) Mae'r cyngor sir wedi cytuno'n swyddogol i gefnogi'r ymgyrch i reoli plastig mewn cyfarfod ar 22 Chwefror. Bydd y mater ar agenda Partneriaeth Canol Tref hefyd.
- (iv) Cydymdeimlodd y Cyng. Miles gyda theulu'r ddiweddar Mrs Sheila Bowen; cyfeiriodd at gyfraniad Sheila at gymaint o sefydliadau a phwyllgorau yn yr ardal. Coffa da amdani.

(c) Y Cyng. Elaine Evans:

- (i) Dywedodd y Cyng. Evans bod problemau pla llygod yn ardal Bro Teifi a bod swyddogion yn gweithio yno.
- (ii) Mae'r teulu sydd yn byw yn un o fflatiau Teifi Bach yn dioddef gan fod yr adeilad yn llaeth ofnadwy. Mae'r Cyng. Evans wedi cysylltu â swyddog o gwmni Tai Ceredigion Cyf.

(a) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) The scheme to alleviate the flooding problems from Dôl y Dintir to Cnwcydintir is moving at pace. Complaints have been received regarding the cutting of the trees and plants alongside the pathway which allegedly endangers wildlife in the area. This is necessary to enable the heavy vehicles which need an expanse of 6 feet to lay the required pipework. The county council is considering replanting in due course.
- (ii) Plans are afoot to meet with Ken Skates, the Welsh Government minister responsible for roads, to discuss the proposed footpath from Caemorgan Road to the village of Penyparc. A site meeting is expected.
- (iii) Following the damage caused by the vehicle which caught fire in Pontycleifion, the pavement thereat needs reconstruction.
- (iv) Ben Lake MP has agreed to discuss with Tai Ceredigion Cyf. the possibility of transferring ownership of the Maesglas Play Area to Cardigan Town Council.

(b) Cllr Catrin Miles:

- (i) Following the confusion regarding the closure of Queen's Terrace for resurfacing, the work is finally completed and the road is now open.
- (ii) Ceredigion County Council and Powys County Council are collaborating to develop Mid Wales and make the highway network more efficient for the movement of heavy vehicles.
- (iii) In a meeting held on 22 February, the county council has formally agreed to support the scheme to control the use of plastic. This matter will also be included in the Town Centre Partnership meeting to be held soon.

- (iv) Cllr Miles offered her sympathies to the family of Mrs Sheila Bowen; she referred to Sheila's contribution to so many local organisations and committees. Fond memories remain.

(c) Cllr Elaine Evans:

- (i) Cllr Evans reported that a rodent infestation was discovered at Bro Teifi and that officers were now inspecting.
- (ii) A family housed in one of the Teifi Bach flats has experienced unacceptable levels of dampness in the property. Cllr Evans has contacted an officer of Tai Ceredigion Cyf. to inspect and resolve the problem.

10. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
239	CSC / CCC (Louise Zerk): <i>Cau'r ffordd</i> / Road closure: Rhes y Frenhines/Queen's Terrace – <i>Arwynebu'r troedffordd/resurfacing the footway</i> —CANCELLED	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 20/2/18.
240	CSC / CCC (Louise Zerk): <i>Cau'r ffordd</i> / Road closure: Pwllhai: 21/2/18-22/2/18 – <i>gwaith i'r gwasanaeth dŵr / water service repairs.</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 13/2/18.
241	CSC / CCC (Louise Zerk): <i>Cau'r ffordd</i> / Road closure: Maes-yr-haf – 5/3/18-6/3/18: <i>gwaith i'r gwasanaeth dŵr/ water service repairs.</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 13/2/18.
242	CSC / CCC (Cathryn Morgan): <i>Deiseb</i> /Petition calling on the Welsh Government to provide designated funding for play provision across Wales and to help play providers such as RAY Ceredigion survive and avoid closure.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 13/2/18. <i>Anogwyd yr aelodau i arwyddo'r ddeiseb gan y Cyng. Catrin Miles.</i> Members were requested to sign the petition by Cllr Catrin Miles.
243	CSC / CCC (Eifion Evans): <i>Gweithdy, "Trawsnewid Gofal Cymdeithasol a Lles".</i> Workshop, "The Transformation of Social Care and Wellbeing", Penmorfa, 27/2/18, 10.00-12.00 noon	<i>Wedi ei drafod yn yr is-bwyllgor.</i> Discussed at the sub-committee.
244	CSC / CCC (Gayle Wootton): <i>Hyfforddiant ar gynllunio.</i> Planning Training, Penmorfa, 28/2/18, 2.00-5.30pm.	Cllr Shan Williams and Cllr Debra Griffiths attended the training. Both members reported insufficient information was available at the training session. The clerk was asked to report this dissatisfaction to the organisers.
245	CSC / CCC (Tom Delph-Janiurek): <i>Copi o lythyr at Mr J. E. Jones.</i> Copy of letter forwarded to Mr J. E. Jones, Maes-a-môr, Gwbert Road, regarding parking issues.	Response: "To propose a prohibition of parking on public highway (near the Rugby Club) for the reason would simply not be appropriate."
246	CSC / CCC (Dana Jones): <i>Nodiadau a chofnodion cyfarfod rhwng Cyngor Sir Ceredigion a'r cynghorau tref a chymuned.</i> Notes and minutes of the meeting between the county council and town and community councils held on 16 January.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 28/2/18.
247	CSC / CCC (Louise Zerk): <i>Cau'r ffordd</i> / Road closure: <i>Stryd y Priordy a Stryd Fawr / Priory Street and High Street: Gorymdaith y Tystio / Walk of Witness, 30/3/18, 11.30-12.00 noon</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 6/3/18.
248	CSC / CCC (Catrin Newbold): <i>Ymgynghoriad Rheoli Datblygu / Development Management Consultation</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 6/3/18. <i>Copi ar gael gan y clerc / Copy available with the clerk.</i>
249	CSC / CCC (Alan Haird): Place Plans (resources)	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 6/3/18. <i>Copi ar gael gan y clerc / Copy available with the clerk.</i>
250	<i>Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru: Canllaw i Brif Gynghorau ar Arolygon Cymunedol.</i> Local Democracy and Boundary Commission for Wales: Guidance for Principal Councils on the Review of Communities.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 28/2/18.

251	G. Jenkins, Cross House, Eglwyswrw: <i>Llythyr yn pryderu am awgrymiadau i newid maes parcio Pendre.</i> Letter with concerns regarding the proposed changes to the Pendre car park.	<i>Gofynnwyd i'r clerf anfon copi o'r llythyr ymlaen at Ms Katy Spain, Rheolwr Gwasanaethau parcio'r cyngor sir.</i> The clerk was asked to forward a copy of the letter to Ms Katy Spain, the county council parking service manager.
252	<i>Un Llais Cymru: Aelodaeth 2018-19.</i> One Voice Wales: Membership for 2018-19.	Nodwyd. <i>Noted.</i>
253	Ysgol Uwchradd Aberteifi: <i>Diolch i'r cyngor am y llythyr o longyfarchion ar lwyddiant yr ysgol.</i> Appreciation to the council for the letter of congratulations on the school's recent success.	Nodwyd. <i>Noted.</i>
254	<i>Sioe Dydd Sadwrn Barlys.</i> Cardigan Barley Saturday Show: <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants sub-committee.
255	<i>Clwb Ceir Clasur Aberteifi / Cardigan Classic Car Club: Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants sub-committee.
256	Cardigan Youth Project – Area 43: <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants sub-committee.
257	<i>Gofal Mewn Galar / Cruse Bereavement Care: Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants sub-committee.
258	<i>Gŵyl Afon a Bwyd Aberteifi/Cardigan River & Food Festival: Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants sub-committee.
259	<i>Elusen Ambiwlans Awyr Cymru / Wales Air Ambulance Charity: Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants sub-committee.
260	George Davies & Evans: <i>Ymateb ynglŷn â phrydlesau (Clwb Bowls Aberteifi a Chlwb Rygbi Aberteifi).</i> Response regarding the leases for Cardigan Bowls Club and Cardigan Rugby Club.	<i>Gofynnwyd i'r clerf anfon copi o lythyr Mr Dyer dyddiedig 22 Tachwedd ymlaen i aelodau.</i> The clerk was requested to forward a copy of the 22 November letter from Mr Dyer to members.
261	Ms Rowan O'Neill: <i>Cais i roi cyflwyniad o brosiect i sefydlu canolfan ddiwylliannol ar sail casgliad Dic Jones yn hen lys y dref.</i> Application to give a presentation regarding the formation of a centre to establish the work of Dic Jones in the old courthouse.	<i>Cytunwyd gwahodd Ms O'Neill i roi cyflwyniad byr ar 3 Ebrill.</i> It was agreed to invite Ms O'Neill to give a short presentation on 3 April.
262	<i>Cyngor Sir Llanbedr Post Steffan: Gwahoddiad i Faer a Maeres Aberteifi i Seremoni Sefydlu'r Maer, 4/5/18, 6.30yh.</i> Lampeter Town Council: Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Mayoral Installation Ceremony, at the Old Hall, University of Wales.	<i>Copi i'w drosglwyddo i'r Maer Etholedig.</i> Copy to be forwarded to the Mayor Elect.
263	<i>Bachan Deche: Adroddiad Chwefror.</i> Handyperson: February Report	<i>I'w drafod tan eitem 12.</i> To be discussed under item 12.

Alan W. Haird:	<i>Swyddog Rheoli a Datblygu Prosiectau / Project Management & Development Officer</i>
Cathryn Morgan:	<i>Cydlinydd Teuluoedd yn Gyntaf / Families First Coordinator</i>
Dana Jones:	<i>Swyddog Gwasanaethau Democratiaidd a Safonau / Democratic Services and Standards Officer</i>
Eifion Evans:	<i>Prif Weithredwr / Chief Executive</i>
Gayle Wootton:	<i>Cadeirydd, Cymorth Cynllunio Cymru / Chair, Planning Aid Wales</i>
Louise Zerk:	<i>Adain Cau Ffyrdd / Road Closures</i>
Sue Darnbrook:	<i>Cyfarwyddwr Strategol Gofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw / Strategic Director for Care, Protection and Lifestyle</i>
Tom Delph-Janiurek:	<i>Rheolwr/Beiriannydd Rheoli Trafnidiaeth / Senior Engineer Traffic Management</i>

- 11. (a) Ethol Maer-Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am 2018-19.**
Cynigiwyd gan y Cyng. Richard Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Debra Griffiths bod y Dirprwy-Faer, y Cyng. John Adams-Lewis, i'w ethol yn Faer-Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am y flwyddyn 2018-19. Roedd y cyngor yn unfrydol.
- (b) Ethol Dirprwy-Faer Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am 2018-19.**
Cynigiwyd gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Steffan Morgan bod y Cyng. Shan Williams i'w hethol yn Ddirprwy-Faer Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am y flwyddyn 2018-19. Roedd y cyngor yn unfrydol.

- (a) Election of Cardigan Town Council Mayor-Elect for 2018-19.
It was proposed by Cllr Richard Jones and seconded by Cllr Debra Griffiths that the Deputy Mayor, Cllr John Adams-Lewis, be elected Cardigan Town Council Mayor-Elect for the year 2018-19. Members were unanimous in their decision.
- (b) Election of Cardigan Town Council Deputy Mayor-Elect for 2018-19.
Cllr Graham Evans proposed that Cllr Shan Williams be elected Cardigan Town Council Deputy Mayor-Elect for the year 2018-19. This was seconded by Cllr Steffan Morgan. Members were unanimous in their decision.

12. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 20 Chwefror.

Confirmation of 20 February Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. Debra Griffiths bod cofnodion 20 Chwefror yn gywir.

Cllr Marilyn Farmer proposed that the 20 February minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Debra Griffiths.

Materion yn codi Matters arising

Tud. 1341 (*Mapiau'r Dref*): Cytunwyd gyda'r argymhelliad bod y cyngor yn caniatáu i gwmni 4CG brynu map ar gyfer y maes parcio ar gost ei hun.

Page 1341 (*Town Maps*): It was agreed with the recommendation that the company 4CG be allowed to purchase a map for its car park at the company's expense.

Tud. 1341 (*Arwyddion bys*): Cytunwyd gyda'r awgrym bod y clerc yn trafod y mater gyda Mrs Ann Stokoe er mwyn symud y cynllun ymlaen cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

Page 1341 (*Finger posts*): It was agreed with the recommendation that the clerk discusses these with Mrs Ann Stokoe and thereby move the project forward to be completed before the end of the present financial year.

Tud. 1341 (*Plac Jonathan Jones*): Cytunodd y Cyng. Steffan Morgan siarad â Mr Wells Jones, Gwesty'r Grosvenor, i drafod yr hawl i osod y plac ar fur y gwesty.

Page 1341 (*Jonathan Jones plaque*): Cllr Steffan Morgan agreed to discuss the possibility of placing the plaque on the Grosvenor Hotel wall with Mr Wells Jones.

Tud. 1341 (*Hadau Pabi Coch – Coffadwriaeth y Rhyfel Byd Cyntaf*): Cytunwyd gofyn i'r Bachan Deche blannu hadau pabu coch yng Ngerddi Victoria.

Page 1341 (*Red Poppy Memorial of the First World War*): It was agreed to request the Handyperson to plant red poppy seeds in Victoria Gardens.

Castell Aberteifi: Dywedodd y Cyng. Clive Davies bod y fynedfa newydd wedi ei gorffen gydag arwyddion a chlwydi newydd hefyd. Caiff blodau i'w plannu yng Ngardd Brioude gyda'r pwyllgor gefeillio'n noddi.

Cardigan Castle: Cllr Clive Davies stated that the new entrance was now complete and new signage and gates were also finished. The Brioude Garden will be replanted with flowers sponsored by the twinning committee.

Pwll Nofio Aberteifi: Dywedodd y Cyng. Steffan Morgan bod cyfweiliadau am swyddi yn mynd yn eu blaen.

Cardigan Swimming Pool: Cllr Steffan Morgan stated that job interviews were now on-going.

Pwyllgor Ymgynghorol Cae Chwarae Brenin Siôr Sed: Dywedodd cadeirydd y pwyllgor, y Cyng. Steffan Morgan, y byddai adroddiad ysgrifenedig o'r cyfarfod diweddar yn cyrraedd swyddfa'r cyngor yn fuan. Cytunodd y Cyng. Graham Evans archwilio clawr y draen sydd wedi torri ar y maes.

King George 5th Playing Field Advisory Committee: The chairman of the committee, Cllr Steffan Morgan, agreed to forward a written report of the recent meeting to the council in due course. Cllr Graham Evans agreed to inspect the reported broken drain cover on the field.

Adroddiad y Bachan Deche: Cytunwyd bod angen holi am brisiau i dorri porfa'r cae pêl-droed bob pythefnos neu pan fydd angen.

Handyperson Report: It was agreed to obtain quotations for a fortnightly cut of the football field or when in need.

Pwyllgor Gefeillio Aberteifi/Brioude: Dywedodd y Cyng. Catrin Miles y cynhelir Ffair Brioude (Foire Expo) o 17-21 Mai; bydd carfan o'r pwyllgor yn ymweld â hi.

Cardigan/Brioude Twinning Committee: Cllr Catrin Miles stated that the Brioude Fair (Foire Expo) would be held on 18-21 May; a contingent of committee members would visit.

13. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.
Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) **Y Cyng. / Cllr Clive Davies**

- (i) **Cais i wahodd Mr Jac Davies, rheolwr Castell Aberteifi, i gyfarfod o'r cyngor. Cytunwyd gwahodd Mr Davies i gyfarfod is-bwyllgorau'r cyngor ar 15 Mai.**
Application to invite Mr Jac Davies, manager of Cardigan Castle, to address the council. It was agreed to invite Mr Davies to address the council at the 15 May sub-committees.
- (ii) **Lleoliadau i osod mapiau y byrddau dehongli (7).**
Cytunwyd gyda'r lleoliadau fel a arddangoswyd gan y Cyng. Davies.
Locations for placing the seven interpretation board maps.
It was agreed to place the maps at the locations as displayed by Cllr Davies.
- (iii) **Ymgyrch ddi-plastig. Cytunwyd bod Cyngor Tref Aberteifi yn cefnogi'r holl ymdrechion i reoli plastig yn fasnachol ac yn lleol.**
Plastic-free projects. It was agreed that Cardigan Town Council supports the community efforts to control plastic commercially and locally.
- (iv) **Diweddariad / Update on "Place Plans".**
Bydd "Cynnal y Cardi" yn cysylltu ynglŷn ag ariannu'r prosiect.
"Cynnal y Cardi" will contact the council regarding the possibility of funding the scheme.
- (v) **Cais i'r Cyng. Davies gael ei ymweld ar raglen Geraint Lloyd (Radio Cymru) ynglŷn ag App Aberteifi.**
Request to be interviewed by Geraint Lloyd (Radio Cymru) regarding the Cardigan App.

(b) **Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein**

- (i) **Llwybr meirch (Heol Helyg / Maesglas):**
Cais i osod rampiau i arafu'r drafnidiaeth. Cytunwyd bod y cyngor yn gofyn i'r cyngor sir ystyried y cais yma.
Bridle way between Heol Helyg and Maesglas:
Application to place speed calming ramps. It was agreed that the council requests the county council to consider this possibility.
- (ii) **Gorlifo ger y man chwarae yn Felinban.**
Dyweddodd y Cyng. Adams-Lewis mai Tai Ceredigion Cyf. yw perchennog y man chwarae. Disgwylir gwellhad wedi i'r holl waith ar y draeniau orffen.
Flooding near the Felinban play area.
Cllr Adams-Lewis stated that Tai Ceredigion Cyf. is the owner of the play area. The water drainage of the area should be much improved after the new pipework is completed.

(c) **Y Cyng. / Cllr Catrin Miles**

- (i) **Pris am gyfarpar i Man Chwarae Pentop.**
Cytunwyd bod y cyngor yn archebu'r siglen i'r man chwarae.
Bydd y Cyng. Miles yn cysylltu â chwmni archfarchnad Teso ynglŷn â'r cynllun "Bags for Help" er budd i Gae Chwarae Pentop.
Quotation for equipment for the Pentop Play Area.
It was agreed that the council places an order for the high swing for the play Area. Cllr Miles will contact Tesco supermarket regarding the possibility of applying for the "Bags for Help" scheme in aid of the Pentop Play Field.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.03yh

There being no further business to discuss, the Deputy Mayor closed the meeting at 8.03pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date